


ECAD6007-C
Y Dysgwr: pwy
ydw i'n ei addysgu?

GWEITHDY ASEINIAD


**SIÂN BROOKS, ISHMAEL
LEWIS & IWAN ELLIS-
WILLIAMS**



NODAU'R MODWL

Rhoi i athrawon dan hyfforddiant sgiliau dadansoddi beirniadol a gwerthuso, i ddeall y gwahanol bersbectifau sydd wrth wraidd theorïau datblygiad plant a mynd i'r afael â'r ffactorau allanol sy'n effeithio ar lesiant a datblygiad.

Ennyn diddordeb yn y model arfer trawsnewidiol sy'n cychwyn mewn lleoliad addysgol, ar sail tystiolaeth oddi wrth adfyfyrio'n feirniadol a gwerthuso.



CYFEIRIADAU

Pam?
Beth?
Sut?



ADOLYGIAD LLENYDDIAETH

**Pam?
Sut?**

ECAD6007-C

Aseiniad: ymholiadau

Gwerthuso a nodi'n feirniadol y camau dysgu ac addysgu nesaf gan ganolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, ar sail achos beirniadol a arsylwyd (cyfwerth â 5000 o eiriau).

Cyflwyniad: 29/10/19 (dyddiad terfynol 23:59)



Sgiliau Astudio:
yr ysgrifennwr academaidd

Trosolwg o'r gweithdy

- ☐ Sut allwn ni ddatblygu ein hysgrifennu er mwyn ysgrifennu'n fwy academaidd?
- ☐ Beth yw meddwl ac ysgrifennu 'dadansoddol', a sut allwn ni ddangos hyn?
- ☐ Sut allwn ni baratoi ar gyfer ein aseiniad Egwyddorion Addysgeg yn effeithiol?

Meddwl yn feirniadol ac yn ddadansoddol

- ☐ Archwilio yn fanwl ac o wahanol onglau e.e. o wahanol safbwyntiau'r awdur.
- ☐ Ystyried pam y gallai'r rhain fod yn wahanol e.e. rhesymau hanesyddol, gwleidyddol.
- ☐ Archwilio gwahanol rannau a chysylltu'r rhain â'r syniad cyfan.
- ☐ Gwirio cywirdeb.
- ☐ Chwilio am ddiffygion yn y rhesymeg, y dystiolaeth neu'r casgliadau.
- ☐ Dadlau pam fod un ddadl yn well na'r llall.

Defnyddio deunydd addas

Sut y gwyddoch chi bod y wybodaeth sydd gennych chi yn ddibynadwy?

- ☐ Ffynonellau cydnabyddedig:
- ☐ Cyfres ddibynadwy, cylchgrawn wedi'i adolygu gan gymheiriaid neu gyhoeddwr academiaidd?
- ☐ Nifer ac ansawdd y cyfeiriadau a ddyfynnir.
- ☐ Pa mor ddiweddar? Seiliedig ar dystiolaeth? Ydy'r wybodaeth yn dryloyw?

Darllen yn weithredol - awgrymiadau

- ☐ Crynhowch yr hyn a ddarllenwyd e.e. mewn brawddeg; pennawd; gan ddefnyddio grid PMI.
- ☐ Gosodwch gwestiynau penodol cyn darllen a dod o hyd i'r atebion.
- ☐ Ail-ddarllen a darllen yn uchel.
- ☐ Amlygu geiriau ac ymadroddion allweddol, neu ddefnyddio lliw i ddynodi themâu penodol.
- ☐ Dwyn i gof ac adolygu.
- ☐ Canfod trywydd o resymu yn y testun ac edrych ar hyn yn fwy manwl.

YSGRIFENNU YN ACADEMAIDD

- ☐ Beth sy'n anodd am ysgrifennu yn gyffredinol?
- ☐ Beth sy'n anodd am ysgrifennu ar gyfer y traethawd/aseiniad hwn?
- ☐ Sut ydych chi'n ystyried eich hun fel awdur?
- ☐ Ydych chi'n ymwybodol o'r ffordd rydych chi'n ysgrifennu - eich proses ysgrifennu eich hun?
- ☐ Oes gennych chi unrhyw strategaethau sy'n eich helpu i ysgrifennu?

Ysgrifennu dadansoddol: synthesis

Mae dadansoddiad da yn:

- ❑ yn nodi rhannau allweddol o'r pwnc ac yn trafod eu hystyr, eu rhinweddau a'r berthnyas rhyngddynt er mwyn gallu trafod y pwnc yn ei gyfanrwydd;
- ❑ yn cyflwyno ymateb neu ddadl rhesymol;
- ❑ yn cymharu a gwrthgyferbynnu, yn cyflwyno dadleuon ac yn dod i benderfyniadau;
- ❑ yn annibynnol ac yn wrthrychol, ond yn gallu dangos ymateb personol;
- ❑ yn esbonio ac yn ymhelaethu ar ddadleuon;
- ❑ yn eu cyfiawnhau â thystiolaeth o'r testun trwy ddyfyniadau neu aralleirio;
- ❑ yn glir, yn gytbwys ac yn cynnwys ystod o dystiolaeth cefndirol.

Osgoi llên-ladrad

- ☐ Peidiwch â gor-ddefnyddio dyfyniadau.
- ☐ Cadwch rhain yn gryno.
- ☐ Ysgrifennwch yr holl nodiadau yn eich geiriau eich hun.
- ☐ Nodwch yr union fan lle daethoch o hyd i'r wybodaeth a chyfeirnodwch unrhyw ffynonellau sy'n cynnwys syniadau nad ydynt yn perthyn yn wreiddiol i chi.

Y DARLUN CRWN: TREFN & EGLURDER



Y Llinyn Aur

- ❑ Mae'r aseiniad cyfan yn canolbwyntio ar ddatblygu dadl;
- ❑ Bydd angen cadw prif ffocws y ddadl ar flaen eich meddwl *trwy gydol yr aseiniad*;
- ❑ Eich llinyn aur chi yw'r cysylltiad rhwng pob rhan;
- ❑ Mae angen sgiliau meddwl a sgiliau ysgrifennu er mwyn gwnô llinyn aur drwy eich gwaith.

Cyfeirio ar lefel paragraff

- ❑ Mae brawddegau pwnc yn hanfodol ar gyfer cyfeirio'r darllenydd at y ddadl sy'n datblygu.
- ❑ Mae brawddegau pwnc yn amlygu pa syniadau sydd yn mynd i gael eu datblygu o fewn y paragraff.
- ❑ Brawddegau pwnc *fel arfer* yw'r frawddeg gyntaf mewn paragraff, ond tueddiad yw hyn ac nid rheol. Mae'r frawddeg pwnc yn ail neu hyd yn oed ymhellach ymlaen weithiau mewn ysgrifennu mwy aeddfed.
- ❑ Mae brawddegau pwnc yn hynod o berthnasol i roi cyfeiriad i ysgrifennu dadansoddol.
- ❑ (os ydych yn gwybod bod hyn yn wendid, teipiwch frawddegau cyntaf pob paragraff yn goch ac yna adolygwch a ydynt yn frawddegau pwnc ai peidio).



PWYNT


Beth yw testun y paragraff hwn?
Y prif syniad neu ddadl?

TYSTIOLAETH GEFNOGOL

Sut allwch chi helpu'r darllenydd i ddeall eich dadl?
Tystiolaeth gefndirol; esboniadau ac
ymhelaethiadau; tystiolaeth gwrthgyferbyniol;
datganiadau;

CRYNODEB/SYLW

Cloi gyda chrynodeb o'r prif bwyntiau yn eich geiriau
eich un, sylw dadansoddol am y pwnc, neu
ddatganiad sy'n dynodi'r ffordd ymlaen.



Geirfa i ddangos trywydd

YCHWANEGU at hyn; hefyd; yn ogystal; yn wir; ymhellach;	CYFERBYNNU i'r gwrthwyneb; eto; tra; fel arall; yn lle; yn wahanol; ar y llaw arall; serch hynny; fodd bynnag; er hynny;	CYM HARU yr un mor; yn yr un modd; yn yr un ffordd; yn debyg	EGLURO er enghraifft; mewn geiriau eraill; hynny yw	CRYNHOI i gloi; i grynhoi;
DANGOS CANLYNIAD felly; fel canlyniad; o ganlyniad; yn unol â hynny;	RHESTRI i gychwyn; i ddechrau; yna, wedyn; yn gyntaf; yn ail; i orffen	PWYSLEISIO heblaw; wedi'r cyfan; yn anad dim; yn arbennig; mewn gwirionedd	DYNODI AMSER yn y cyfamser; yn olaf; nesaf; i ddechrau; wedi hynny; yn y pen draw; yn y diwedd; wedyn	ARALL er gwaethaf

Gweithgaredd

- ❑ Mae enghreifftiau o aseiniadau ar y ddesg o'ch blaen.
- ❑ Ystyriwch rhain yn nhermau strwythur, cynnwys ac a ydynt yn ymgorffori enghreifftiau o ysgrifennu dadansoddol.
- ❑ Pa mor mae'r rhain yn diwallu nod yr aseiniad?
- ❑ **DALIER SYLW: PEIDIWCH TYNNU LLUNIAU NA GWNEUD NODIADAU MANWL AM Y GWAITH HYN!! COFIWCH AM REOLAU LÊN-LADRATA!**

Byddwch yn ffrind beirniadol!

Gweithgaredd

- ☐ Lawrlwythwch y 2 aseiniad o Moodle.
- ☐ NI ALLWCH DDEFNYDDIO UNRHYW RANNAU O'R ASEINIADAU YMA YN EICH GWAITH EICH HUN!
- ☐ Lawrlwythwch y criteria marcio.
- ☐ Penderfynwch ar radd ar gyfer pob aseiniad o fewn eich grwpiau

Adfyfyrrio Personol

Gan feddwl am eich sgiliau ysgrifennu academaidd personol, a myfyrio ar y mewnbwn o'r gweithdy hwn, pa agweddau ar eich ysgrifennu academaidd chi sydd angen sylw pellach?

A oes agweddau ar ysgrifennu academaidd y mae angen rhagor o wybodaeth arnoch?

CYFEIRIADAU

Cottrell, S. (2013) The Study
Skills Handbook London:
Palgrave MacMillan

Professor Debra Myhill, Exeter
University, presentation JURE
2017

